| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **20 IONAWR 2014** |
| **TEITL** | **18fed CYFARFOD BLYNYDDOL LAPFF**<br>**“Licence to Operate – Holding Companies to Account”** |
| **PWRPAS** | **Er mwyn hysbysu aelodau’r Pwyllgor Pensiynau o’r buddiannau a enillwyd wrth fynychu’r gynhadledd.** |
| **AWDUR** | **CAROLINE ROBERTS, RHEOLWR BUDDSODDI** |

## 1. CYFLWYNIAD

Cynhaliwyd cynhadledd flynyddol LAPFF conference yn y Highcliff Marriot Hotel, Bournemouth yn Rhagfyr 2013 a mynychodd Cynghorydd John Pughe Roberts a Caroline Roberts, Rheolwr Buddsoddi. Derbyniwyd nifer o gyflwyniadau gan gyrff ac unigolion sydd yn ceisio gwella llywodraethu, cynaladwyedd ac atebolrwydd er budd busnesau a’u cyfranddalwyr. Cynhwysir crynodeb byr rhai o’r cyflwyniadau yn yr adroddiad hwn.

## 2. PANEL BUDDSODDWYR ACTIFYDD

Cynhwyswyd nifer o gyflwyniadau ar effaith y gellir ymrwymiad actif gan gyfranddalwyr gael ar werth gwmnïau yn y sesiwn agoriadol. Eglurodd y buddsoddwyr perthnasol sut mae eu hymrwymiad agos gyda’u cwmnïau y buddsoddi ynddynt yn gwella’r busnesau. Mae buddsoddiad o’r fath yn cynnwys asesiad manwl o fuddsoddiad addas a gweithio’n agos gyda’r busnes dros dymor hir er mwyn ennill dychweliadau da.

## 3. FFRAMWAITH CAFFAEL CENEDLAETHOL CPLlL

Rhoddod Nicola Mark, Pennaeth Norfolk Pension Fund cyflwyniad ar y fframwaith caffael sydd wedi cael ei greu er mwyn i gronfeydd pensiwn cydweithio ar gaffael ac arbed amser ac arian trwy ddileu’r angen i ymgymryd â phroses caffael yr Undeb Ewropeaidd llawn yn unigol. Ceir cronfeydd unigol ymuno a’r fframwaith ac apwyntio ymgymerwr o fewn gyfnod o 4 - 6 wythnos yn hytrach na phroses 6 - 9 mis. Mae nifer o gronfeydd yn defnyddio’r fframweithiau yn barod.

Mae’r fframweithiau presennol yn cynnwys:

- Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Actiwaraidd a Buddiannau.
- Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Buddsoddi
- Gwasanaethau Gwarchodaeth Fyd-eang

Gwasanaethau Cyfreithiol fydd y fframwaith nesaf.

Cyfle i osgoi costau ac amser wrth dendro am y gwasanaethau perthnasol yw hyn.

## 4. CYFARWYDDWYR DA

Roedd y cyflwyniad hwn gan Deborah Gilshan o RPMI Railpen Investments yn dangos y gwahaniaeth rhwng cyfarwyddwyr da a chyfarwyddwyr drwg. Mae rhinweddau cyfarwyddwr cwmni da yn cynnwys ffocws ar ddiwylliant a gwerthoedd, goruchwyliaeth gadarn dros reolaeth ac atebolrwydd i'r cyfranddalwyr. Nododd bod strwythurau bwrdd ac ymrwymiad cyfarwyddwr y DU yn tueddu bod yn well na byrddau yn yr Unol Daleithiau a galwodd am gyfarwyddwyr annibynnol yr UD i ddatblygu strategaethau ymrwymiad gyda chyfranddalwyr er mwyn sefydlu parch a dealltwriaeth a chreu diwylliant 'osgoi syndod'. Mae enghreifftiau ymarfer da yn bodoli ond mae sawl gwmni angen gwella effeithiolrwydd eu byrddau.

## 5. DADL SAFONAU' CYFRYNGAU

Derbyniwyd cyflwyniad diddorol gan Martin Hickman, cydawdur 'Dial M for Murdoch' ar saga hacio ffonau yn News of the World. Esboniodd diwylliant y papur a'r diffyg llywodraethu a chaniatawyd i'r hacio ffonau cymryd lle. Pwysleisiodd yr angen gwella yn safonau'r cyfryngau a diwygio llywodraethu, gan gynnwys Cadeirydd annibynnol ar y Bwrdd. Mater mae LAPFF wedi dilyn gyda News International ar ran eu haelodau.

## 6. CASGLIAD

Darparwyd y gynhadledd gwybodaeth ynglŷn â'r gwaith sydd yn cael ei gwneud ar ran yr holl gyfranddalwyr gan LAPFF a chyrff ac unigolion eraill. Mae nifer o gynrychiolwyr o'r cronfeydd CPLlL yn Lloegr a Chymru yn ymrwymo amser ac adnoddau sylweddol i'r broses hon ar ran yr holl aelodau LAPFF ac maent gyda mwy a dylanwad ar y busnesau a ymgysylltir gan fod ganddynt gefnogaeth yr holl aelodau LAPFF.